# Llywodraeth Cymru Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tachwedd 2025

---

**Mae'r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o effaith ddosbarthiadol gwariant adnoddau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52876, ISBN digidol 978-1-80633-631-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys

**Dadansoddiad Dosbarthiadol o Wariant Cyhoeddus yng Nghymru: Cyllideb Ddrafft Fanwl Tachwedd 2025 .... 2**

Cyflwyniad .... 2

Canfyddiadau .... 2

Methodoleg .... 3

Defnyddiau .... 4

Diweddariadau .... 4

Cynlluniau ar gyfer y dyfodol .... 5

**Atodiad .... 6**

# Dadansoddiad Dosbarthiadol o Wariant Cyhoeddus yng Nghymru: Cyllideb Ddrafft Fanwl Tachwedd 2025

## Cyflwyniad


1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o effaith ddosbarthiadol gwariant adnoddau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ar gyfer 2026-27. Mae'n dangos sut mae gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn effeithio ar wahanol rannau o ddosbarthiad incwm aelwydydd yng Nghymru. Hwn yw'r pumed adroddiad mewn cyfres sydd wedi cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â chyllidebau drafft yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

2. Mae'r rhaglenni a gwmpesir yn y dadansoddiad yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r gyllideb gyffredinol. Fel yn achos cyllidebau drafft blaenorol, mae'r dadansoddiad yn dangos bod gwariant adnoddau datganoledig yn gynyddraddol ar y cyfan ar draws y dosbarthiad incwm, ond gyda rhywfaint o amrywio rhwng y gwahanol feysydd gwariant.

## Canfyddiadau

3. Mae Ffigur 1 isod yn cyflwyno'r dadansoddiad wedi'i ddiweddaru yn llawn. Mae'r darlun cyffredinol yn parhau'n gyson ag adroddiadau cynharach. Mae gwariant yn gynyddraddol ar y cyfan o ran incwm, ond nid yw'n unffurf ar draws y dosbarthiad incwm.

**Ffigur 1: Gwariant adnoddau datganoledig yng Nghymru yn ôl prif faes gwasanaeth, 2026-27**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu (SYG), yr Arolwg Cenedlaethol, Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW) ac UKMOD*

Mae'r canlyniadau a gyflwynir yma yn seiliedig ar UKMOD fersiwn B2025.07. Caiff UKMOD ei gynnal, ei ddatblygu a'i reoli gan y Ganolfan Micro-efelychu a Dadansoddi Polisi (CeMPA) ym Mhrifysgol Essex. Cafodd y broses o estyn a diweddaru UKMOD ei chefnogi'n ariannol gan Sefydliad Nuffield (2018-2021) a'r Ymddiriedolaeth Tegwch Ariannol (2023-2024). Llywodraeth Cymru yn unig sy'n gyfrifol am y canlyniadau a'r ffordd y'u dehonglir.

4. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r dadansoddiad yn cwmpasu iechyd, addysg, trafnidiaeth, a'r rhan fwyaf o wariant ar ofal cymdeithasol i oedolion. Mae'n cyfrif am £19bn o wariant adnoddau datganoledig yng Nghymru, sef dros 70 y cant o'r cyfanswm. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn **Ffigur 1** uchod yn ymwneud â'r cynlluniau gwariant diweddaraf ar gyfer 2026-27, fel y'u dangosir yn y Gyllideb Ddrafft Fanwl, a gyhoeddwyd ar 3 Tachwedd 2025.

5. Roedd dadansoddiadau ar wahân ar gyfer y meysydd gwasanaethau cyhoeddus a geir yn **Ffigur 1** uchod ar gael yn yr **Atodiad** i'r adroddiad hwn.

## Methodoleg

6. Mae'r dadansoddiad yn gwneud defnydd o UKMOD – model micro-efelychu treth-budd-dal – a ddefnyddir i amcangyfrif ac amcanestyn incwm unigolion ar ôl treth a budd-daliadau hyd at 2026-27[1]. Daw data mewnbwn UKMOD o Arolwg o Adnoddau Teulu a gynhelir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau[2], sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am incwm unigolion, yn ogystal â nodweddion eraill. Caiff setiau data mewnbwn yr Arolwg o Adnoddau Teulu eu cronni dros dair blynedd i helpu i wneud y dadansoddiad yn gadarnach[3].

7. Unwaith y bydd incymau unigolion ar ôl treth a budd-daliadau (ond cyn costau tai) wedi cael eu hamcangyfrif drwy ddefnyddio UKMOD, cânt eu cyfwerthu[4]. Mae'r dadansoddiad yn cyfuno data ar incymau aelwydydd cyfwerthedig unigolion â gwybodaeth am eu defnydd o wasanaethau cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn bosibl i wariant adnoddau datganoledig gael ei neilltuo i unigolion ar draws y dosbarthiad incwm. Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar wariant adnoddau, h.y. gwariant o ddydd i ddydd ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, am fod cysylltiad eithaf uniongyrchol yn aml rhwng y math hwn o wariant a'r budd i'r unigolion sy'n cael y gwasanaeth. Nid yw gwariant cyfalaf, e.e. ar adeiladau neu beiriannau, wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad, gan fod y cysylltiad rhwng y math hwnnw o wariant a budd i unigolyn penodol yn llai amlwg ar y cyfan.

8. Mae'r dadansoddiad yn mabwysiadu un o dri dull er mwyn helpu i nodi defnydd unigolyn o wasanaethau cyhoeddus. Mewn rhai achosion, gellir arsylwi ar y defnydd o'r gwasanaeth yn uniongyrchol drwy ddata a gesglir fel rhan o'r Arolwg o Adnoddau Teulu, megis addysg i blant oedran ysgol. Mewn achosion eraill, pan nad oes modd arsylwi ar y defnydd o wasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol, caiff ei amcangyfrif drwy ddefnyddio dull rhagfynegi y tu allan i'r sampl. Mae'r dull hwn yn defnyddio ffynonellau data eraill (Arolwg Cenedlaethol Cymru yn bennaf) i helpu i archwilio nodweddion yr unigolion hynny sy'n defnyddio'r gwasanaeth cyhoeddus dan sylw. Defnyddir model ystadegol i gysylltu'r wybodaeth honno â'r unigolion neu'r aelwydydd hynny sy'n rhannu'r un nodweddion yn nata'r Arolwg o Adnoddau Teulu, sydd hefyd yn cynnwys data ar

---

[1] UKMOD - y Ganolfan Micro-efelychu a Dadansoddi Polisi.
[2] I gael rhagor o fanylion, gweler: https://www.gov.uk/government/collections/family-resources-survey--2
[3] Mae'r blynyddoedd a gronnwyd yn cynnwys 2021-22, 2022-23 a 2023-24.
[4] Proses lle y caiff incymau aelwydydd eu haddasu'n seiliedig ar faint yr aelwyd a'i chyfansoddiad yw cyfwerthu. Mae'n helpu i gynnig ffordd o gymharu safonau byw gwahanol fathau o aelwydydd yng Nghymru.

eu hincymau. Yna, defnyddir y model ystadegol hwn i amcangyfrif defnydd unigolion o wasanaeth cyhoeddus, a dyrennir gwariant cyhoeddus ar y gwasanaethau hynny yn unol â hynny. Yn olaf, ar gyfer rhai meysydd iechyd, defnyddir data gweinyddol i briodoli'r defnydd yn ôl oedran a rhywedd.

9. Mae'r dadansoddiad dosbarthiadol yn tybio'n ymhlyg bod y budd i'r unigolyn sy'n cael gwasanaeth cyhoeddus yn gyfwerth â chost ei ddarparu ar gyfartaledd. Mae'n bosibl na fydd hyn yn gyfwerth â'r gwir werth i'r unigolyn sy'n cael y gwasanaeth cyhoeddus, nac i gymdeithas yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, gall gynrychioli gwerth sy’n agos at yr hyn y gallai’r rhai sy’n cael y gwasanaeth ei dalu fel arall. Ar y sail honno, mae'n dangos sut mae gwariant cyhoeddus yn effeithio ar aelwydydd ar draws y dosbarthiad incwm.

10. Aeth y Dadansoddiad Dosbarthiadol o Wariant Cyhoeddus yng Nghymru cyntaf ati i ystyried y materion methodolegol a chysyniadol hyn yn fanylach.

## Defnyddiau

11. Y prif ddefnydd a wneir o'r math hwn o ddadansoddiad dosbarthiadol yw dangos patrymau bras, yn hytrach nag amcangyfrifon manwl o effeithiau ariannol gwariant cyhoeddus ar draws y dosbarthiad incwm. Gall helpu i roi cefndir i syniadau strategol ynglŷn â blaenoriaethau gwariant ehangach.

12. Gan fod y dadansoddiad yn defnyddio dull ‘o'r brig i lawr’ o fesur gwariant cyhoeddus a'r defnydd o wasanaethau gan unigolion (gan ganolbwyntio'n bennaf ar y defnyddiwr gwasanaeth ‘cyffredin’), mae'n llai addas ar gyfer ystyried effeithiau polisïau unigol neu edrych ar newidiadau penodol rhwng cyllidebau, a hynny oherwydd ei bod yn ddigon posibl bod y defnydd ‘cyffredin’ o wasanaeth a dybid yn y dadansoddiad yn wahanol o dan bolisi neu raglen newydd.

13. Nid yw'r dadansoddiad yn addas iawn ar gyfer mathau penodol o bolisi neu raglen o wariant ychwaith, er enghraifft y rhai sy'n canolbwyntio ar wariant ataliol neu sy'n targedu grwpiau neu ardaloedd daearyddol penodol. O ran y cyntaf o'r rhain, y nod o bosibl fyddai lleihau gwariant yn y dyfodol, gan ei gwneud yn llai clir pwy yw'r buddiolwyr. O ran yr ail, os caiff poblogaethau neu ardaloedd daearyddol penodol eu targedu, efallai y bydd yn fwy anodd amcangyfrif y defnydd o wasanaeth oherwydd cyfyngiadau'r data dan sylw. Dangosir hyn yn yr enghraifft a roddir ym mharagraff 16.

## Diweddariadau

14. Mae'r dadansoddiad y flwyddyn hon yn defnyddio set ddata tair blynedd gyfunol o'r Arolwg o Adnoddau Teulu, sydd bellach yn cwmpasu 2021-22, 2022-23 a 2023-24. Pan amcangyfrifir y defnydd o wasanaethau cyhoeddus yn hytrach nag arsylwi arno yn y dadansoddiad, defnyddir Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2022-23 (gan fod hwn yn cynnwys y data perthnasol diweddaraf). Mae'r data o Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW) ar gyfer 2024-25.

15. Am y tro cyntaf eleni, mae'r dadansoddiad wedi'i ehangu i fodelu ar wahân y defnydd o wasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys. Nid oedd yn bosibl ymdrin â'r maes hwn ar wahân o'r blaen oherwydd diffyg data cadarn ar gyfer

grwpiau oedran hŷn. Mae hyn wedi'i ddatrys drwy gysylltu data o PEDW â data o'r Arolwg Cenedlaethol.

16. Ystyriwyd polisïau ychwanegol wrth gynhyrchu'r fersiwn hon o'r dadansoddiad, ond oherwydd cyfyngiadau data neu fethodolegol nid oes unrhyw rai wedi'u cynnwys yn benodol. Er enghraifft, ystyriwyd effaith polisi mis Medi 2025 o gyflwyno tocynnau bws am £1 i bobl ifanc[5]. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau data gyda'r grŵp hwn gan y gallai nifer sylweddol o'r rhai rhwng 16 a 21 oed fod yn byw mewn llety myfyrwyr ac felly ni fyddent wedi'u cynnwys yn y data. Yn ogystal, nid yw'n bosibl gwybod pwy fydd yn manteisio ar y cynnig (mae'n annhebygol y manteisir arno'n unffurf ar draws y dosbarthiad incwm)[6].

### Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

17. Caiff y cyhoeddiad ei ddiweddaru ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft Fanwl bob blwyddyn, gan ddefnyddio ffigurau'r gyllideb ddiweddaraf. Byddwn yn parhau i adolygu'r fethodoleg a chaiff ffynonellau data amgen eu hystyried. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yr Arolwg Teithio Cenedlaethol newydd i Gymru yn darparu data ar y defnydd o fysiau a threnau yn y dyfodol.


18. Bydd cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r dadansoddiad yn fwy cyffredinol yn parhau i gael eu hystyried, gan y gall fod cyfleoedd i archwilio dulliau newydd o gysylltu data. Caiff datblygiadau mewn dadansoddiadau dosbarthiadol cyfatebol a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig eraill eu monitro hefyd, gyda'r nod o ymgorffori unrhyw welliannau yn y dyfodol lle y bo'n ymarferol.

[5] Tocyn bws £1 i bobl ifanc o fis Medi | LLYW.CYMRU
[6] Gan dybio bod pawb rhwng 5 a 21 oed yr un mor debygol o deithio ar fws, byddai'r polisi yn gynyddraddol.

# Atodiad

1. Amcangyfrifir bod gwariant adnoddau ar iechyd yn gynyddraddol ar y cyfan mewn perthynas ag incwm (gweler Ffigur A1 isod). Caiff mwy o wariant adnoddau ar iechyd ei briodoli i bobl yn y cwintelau incwm isaf na'r cwintelau incwm cyfartalog ac incwm uwch. Mae gwariant yn y cwintel incwm isaf tua saith y cant yn uwch na'r cyfartaledd ac mae gwariant yn y cwintel uchaf tua 15 y cant yn is na'r cyfartaledd.


**Ffigur A1: Gwariant adnoddau ar iechyd yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2026-27**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu (SYG), yr Arolwg Cenedlaethol, PEDW ac UKMOD*

2. Gwelir bod gwariant adnoddau ar ysgolion hefyd yn gynyddraddol mewn perthynas ag incwm (Ffigur A2)[7]. Mae gwariant fesul person 40 y cant yn uwch na'r cyfartaledd yn y cwintel incwm isaf. Y rheswm dros hyn yw bod mwy o blant oedran ysgol, ar gyfartaledd, yn y cwintel cyntaf a'r ail gwintel. Dim ond 43 y cant o'r cyfartaledd yw'r gwariant fesul person yn y cwintel uchaf. Y rheswm dros hyn yw bod nifer y plant oedran ysgol yn gymharol fach mewn aelwydydd incwm uchel.

**Ffigur A2: Gwariant adnoddau ar ysgolion yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2026-27**





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu (SYG), yr Arolwg Cenedlaethol ac UKMOD*

[7] Mae gwariant ar ysgolion yn cynnwys gwariant ar ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, prydau ysgol am ddim a'r grant amddifadedd disgyblion.

3. Amcangyfrifir bod gwariant ar addysg uwch yn gynyddraddol yn bennaf mewn perthynas ag incwm. Fodd bynnag, mae'r cwintel uchaf yn cael mwy o gyllid na'r cyfartaledd. Mae'r dadansoddiad yn cynnwys cyllid ar gyfer sefydliadau addysg uwch a chyllid grant myfyrwyr. Mae'r canlyniad hwn yn adlewyrchu dau ffactor: mae pobl sy'n mynychu addysg uwch yn dueddol o ddod o aelwydydd incwm uwch, ond caiff yr effaith hon ei gwrthbwyso i raddau helaeth gan y grant prawf modd, sy'n rhoi mwy i'r rhai sy'n dod o aelwydydd incwm is.

4. Nid yw'r canfyddiadau hyn yn cynnwys unrhyw fenthyciadau i fyfyrwyr, y caiff rhan ohonynt ei dosbarthu'n wariant cyhoeddus. Tybir ei bod yn annhebygol y caiff pob benthyciad myfyrwyr ei ad-dalu'n llawn, am fod y telerau ad-dalu yn dibynnu ar incwm a bod iddynt derfynau amser. Mae'r elfen na chaiff ei had-dalu yn cael ei chyfrif fel gwariant cyhoeddus a chaiff ei hamcangyfrif ar adeg rhoi'r benthyciadau. Mae effaith ddosbarthiadol y gwariant cyhoeddus hwnnw yn anodd ei hamcangyfrif ac, ar gyfer benthyciadau unigol, bydd yn dibynnu ar incwm myfyrwyr heddiw yn y dyfodol yn hytrach nag incwm eu cartrefi presennol.


**Ffigur A3: Gwariant adnoddau ar addysg uwch yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2026-27**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu (SYG), yr Arolwg Cenedlaethol ac UKMOD*

5. Mae Ffigur A4 isod yn dangos gwariant adnoddau datganoledig yng Nghymru ar addysg yn ei chyfanrwydd. O ystyried dosbarthiad pob elfen a ddangosir uchod, yn enwedig i ysgolion, sy'n gyfystyr â thros ddwy ran o dair o wariant ar addysg, nodir bod gwariant ar addysg yn hynod gynyddraddol ar y cyfan.

**Ffigur A4: Gwariant adnoddau datganoledig ar addysg yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2026-27**





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu (SYG), yr Arolwg Cenedlaethol ac UKMOD*

6. Mae'r canlyniadau ar gyfer gwariant ar drafnidiaeth gyhoeddus (Ffigur A5 isod) yn awgrymu bod gwariant adnoddau fymryn yn ostyngraddol ar y cyfan mewn perthynas ag incwm aelwydydd. Mae gwariant ar wasanaethau bysiau yn gynyddraddol, yn wahanol i gymorthdaliadau rheilffyrdd. Mae hyn yn gyson ar y cyfan â chanfyddiadau SYG ar gyfer gwariant cyhoeddus ar gymorthdaliadau bysiau a rheilffyrdd yn y DU[8].

7. Dim ond gwariant ar y rhai y rhagwelir y byddant yn defnyddio'r gwasanaeth, yn gyson â meysydd gwasanaeth eraill, y mae'r dadansoddiad hwn yn ei gofnodi. Nid yw'n cofnodi unrhyw fanteision ehangach posibl i gymdeithas a allai fod yn gysylltiedig ag unrhyw fath o wariant cyhoeddus. Mae'r elfennau hyn yn llawer anos eu cofnodi yn y math hwn o ddadansoddiad ac nid ydynt wedi'u cynnwys yma, yn gyson â phob fersiwn arall o ddadansoddiadau dosbarthiadol yn y DU hyd yma. Mae hefyd yn werth nodi nad yw'r wybodaeth am y defnydd o'r rheilffyrdd a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn yn gyfyngedig i'r gwasanaethau sydd wedi'u datganoli i Gymru. Gallai proffil incwm y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau datganoledig fod yn wahanol i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau annatganoledig.

[8] Ar gael yn: [Effeithiau trethi a budd-daliadau ar incwm aelwydydd y DU - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol]

**Ffigur A5: Gwariant adnoddau datganoledig ar drafnidiaeth yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2026-27**





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu (SYG), yr Arolwg Cenedlaethol ac UKMOD*

8. Gwelir bod gwariant adnoddau ar ofal cymdeithasol i oedolion yn gynyddraddol ar y cyfan mewn perthynas ag incwm (gweler Ffigur A6 isod). Mae gwariant y pen yn y cwintel incwm isaf ychydig yn uwch na'r cyfartaledd, ac mae gwariant yn yr ail gwintel incwm 29 y cant yn uwch na'r cyfartaledd. Dim ond 66 y cant o'r cyfartaledd yw gwariant y pen yn y cwintel incwm uchaf.

9. Nid yw'r gydberthynas ag incwm yn unffurf ar gyfer gofal cymdeithasol gofal preswyl i oedolion hŷn, gyda'r gwariant uchaf y pen ymhlith yr ail gwintel incwm. Yn yr ail gwintel incwm a'r pedwerydd cwintel incwm y gwelir y defnydd uchaf o ofal preswyl i oedolion hŷn a ragfynegir, ond mae gwariant cyhoeddus yn canolbwyntio ar ben is y dosbarthiad incwm drwy gymhwyso'r profion modd cyfalaf ac incwm ar gyfer gofal preswyl yng Nghymru[9].

[9] Codi tâl am ofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU

**Ffigur A6: Gwariant adnoddau ar ofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn ôl incwm aelwydydd, 2026-27***




**Noder: Dim ond ar gyfer oedolion hŷn y caiff gofal preswyl ei fodelu oherwydd cyfyngiadau data. Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu (SYG), yr Arolwg Cenedlaethol ac UKMOD*